OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 1172

# Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022

## RHAN 2

### Estyn y cyfnod rhagarweiniol

**Adolygiad o benderfyniad i estyn y cyfnod rhagarweiniol**

**6.**—(1) Mae cais am adolygiad a wnaed yn unol ag adran 125B(**1**) o Ddeddf 1996 (adolygiad o benderfyniad i estyn y cyfnod prawf) cyn y diwrnod penodedig yn cael effaith fel pe bai wedi ei wneud o dan baragraff 4 o Atodlen 4 i Ddeddf 2016 (adolygiad y landlord o benderfyniad i estyn tenantiaeth ragarweiniol).

(2) Mae adolygiad a gychwynnwyd o dan adran 125B o Ddeddf 1996 cyn y diwrnod penodedig (pa un a'i cwblhawyd cyn neu ar ôl y diwrnod hwnnw) i'w drin fel pe bai wedi ei gynnal o dan baragraff 4 o Atodlen 4 i Ddeddf 2016.

(3) Mae hysbysiad a roddwyd gan y landlord o dan adran 125B(5) o Ddeddf 1996 cyn y diwrnod penodedig i gael effaith fel pe bai wedi ei roi o dan baragraff 4(5) o Atodlen 4 i Ddeddf 2016 (ac mae paragraff 5 o Atodlen 4 (adolygiad y llys sirol o benderfyniad i ymestyn) yn gymwys i hysbysiad o dan adran 125B(5) o Ddeddf 1996 sy'n cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol, neu i fethu â rhoi hysbysiad yn unol â'r adran honno).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 6 mewn grym ar 1.12.2022, gweler **rhl. 1(2)**

**Gweithdrefn adolygu penderfyniad i estyn y cyfnod rhagarweiniol**

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i adolygiad a gychwynnwyd o dan adran 125B o Ddeddf 1996 cyn y diwrnod penodedig (pa un a'i cwblhawyd cyn neu ar ôl y diwrnod hwnnw).

(2) Er gwaethaf y diwygiadau a wneir gan Reoliadau Canlyniadol Is-ddeddfwriaeth 2022, mae Rheoliadau Tenantiaethau Rhagarweiniol (Adolygu Penderfyniadau i Estyn Cyfnod Treialu) (Cymru) 2006(**2**) yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag adolygiadau y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddynt.

(3) Nid yw rheoliadau a wnaed o dan baragraff 4(7) o Atodlen 4 i Ddeddf 2016 yn cael effaith mewn perthynas ag adolygiadau y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddynt.

(**1**) Mewnosodwyd adran 125B gan adran 179 o Ddeddf Tai 2004 (p. 34).
(**2**) O.S. 2006/2983 (Cy. 274).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 7 mewn grym ar 1.12.2022, gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022, RHAN 2.